# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 05 MAWRTH 2024

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd),

**Aelodau Cyfetholedig:** Barry Simmons (Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Michael Sol Owen (Plas Heli), Alwyn Roberts ac Andy Vowell (Sefydliad y Bad Achub, Pwllheli)  a'r Cynghorydd Mike Parry (Cyngor Tref Pwllheli).

**Swyddogion :** Gerwyn Owen (Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill yn Bresennol yn Arsylwi** : Desmond George (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Ruth James (Ysgrifennydd Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli) a Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog) a Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Cafwyd diweddariad o drafodaethau'r Cadeirydd gyda Chyngor Gwynedd yn dilyn sylwadau a gafwyd o fewn eitem Materion Brys cyfarfod 10 Hydref 2023. Eglurwyd bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo polisi sy'n caniatáu i gyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu a Chynllunio i gael eu cynnal yn hybrid, gyda gwahoddiad i'r cyhoedd fynychu neu wylio gwe-ddarllediad. Adroddwyd bydd pob cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn rhithiol yn unig. Sicrhawyd bod modd i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd eraill sy'n cael eu cynnal yn rhithiol yn unig er na fuasai modd iddynt gyfrannu i'r trafodaethau, drwy gysylltu gyda'r Gwasanaeth Democratiaeth.

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2023 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd wedi ei chreu gan Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli gan adrodd fel a ganlyn :

Adroddwyd bod rhybudd i forwyr wedi cael ei gyflwyno er mwyn rhagrybuddio bod gwaith o garthu'r sianel yn parhau ar 8fed Mawrth gam gyfnod o wythnos. Cydnabuwyd bod y gwaith hwn yn parhau i fod yn her i'r gwasanaeth a bod swyddogion yn cydweithio gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd i ganfod datrysiad i'r sefyllfa. Eglurwyd bod tua 12,000 o dunelli yn mynd i gael ei

dynnu o geg yr harbwr yn ystod y cyfnod hwn. Sicrhawyd bod arolwg hydrograffig wedi cael ei gwblhau ar yr ardal briodol a bydd contractwyr yn defnyddio teclynnau arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn y lleoliad cywir ac yn tynnu'r swm cywir o dywod o'r safle.

Eglurwyd bod gwaith wedi cael ei gwneud ar yr hen ynys, yn dilyn oediad yn sgil cytuno ar gostau contractwyr. Diolchwyd i Gynghorwyr lleol am gynorthwyo i ymgysylltu gyda thrigolion lleol Bron y De a Morfa Garreg am y gwaith a gwblhawyd gan swyddogion. Nodwyd bydd y lagŵn distyllu yn cael ei wagio'n rhannol. Eglurwyd bod swyddogion wedi torri'r gwair ar yr ynys yn ddiweddar ac wedi canfod bod y tir yn rhy wlyb i osod y gwaddod gwlyb arno i'w sychu. O ganlyniad, cadarnhawyd mai oddeutu 10,000 tunnell bydd yn cael ei wagio o'r lagŵn distyllu yn lle ei wagio'n gyfan gwbl.

Cadarnhawyd y dymunir cwblhau'r gwaith ar yr ynys yn ystod mis Mawrth cyn symud ymlaen i garthu tywod o rhai adrannau. Adroddwyd bydd modd carthu oddeutu 10,000 tunnell o fasn y marina yn cael ei wneud unwaith bydd gwaith ar yr hen ynys wedi'i gwblhau. Ymhelaethwyd bydd arolwg hydrograffig yn cael ei wneud ar y safle er mwyn sicrhau bod y gwaith cywir yn cael ei gwblhau. Cydnabuwyd bod gwaith cyfathrebu gyda cymdogion am y gwaith hwn wedi bod yn ddiffygiol ar ddechrau'r broses ond mae pob ymdrech yn cael ei wneud i'w wella i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ar dderbyn trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer pwmpio'r gwaddod i 'r traeth agosaf (traeth Glandon) yn hytrach na'i gludo ymhellach, cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol bod y tywod wedi cael ei asesu a'i fod yn glir ac y bydd yn cael ei ddefnyddio ar draeth Carreg y Defaid oherwydd ei fod o dan reolaeth y Cyngor. Nid oes modd ei gludo i draeth Glandon oherwydd mae'r traeth dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid yw'r tywod yn pasio eu profion yn ddigonol i gael ei bwmpio yno. Eglurwyd bod y gwasanaeth wedi datblygu cynllun ar y cyd gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn llunio 4 opsiwn i'r dyfodol. Cadarnhawyd mai un o'r opsiynau cryfaf yw gwaredu gwaddod y basn i'r môr gan dderbyn trwydded forol gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ymhelaethwyd bod y gwasanaeth wedi derbyn cyfarfodydd cychwynnol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn gadarnhaol iawn.

Sicrhawyd bod swyddogion yn cydweithio gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd ar nifer o opsiynau er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen i'r dyfodol a bod nifer ohonynt yn ddibynnol ar dderbyn trwydded forol. Eglurwyd bod y broses yn ddibynnol ar ofynion amrywiol ac yn broses sy'n cymryd amser. Eglurwyd ar ôl paratoi'r prosesau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru angen edrych ar y cais hefyd. Pwysleisiwyd bod y broses yn heriol ac felly mae o am gymryd amser i'w dderbyn. Sicrhawyd bod swyddogion yn cydweithio gyda'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor er mwyn rhoi pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio gyda swyddogion.

Tywyswyd drwy berfformiad ariannol yr harbwr gan nodi bod gwariant wedi cael ei wneud i uwchraddio nifer o asedau. Diolchwyd i'r gymdeithas angorfeydd am gynnal arolwg ar yr harbwr er mwyn derbyn adborth gan cwsmeriaid. Sicrhawyd bod y gwasanaeth yn gwrando ar adborth boddhad cwsmer. Rhannwyd esiampl o uwchraddio'r wifi er mwyn gwella lefelau boddhad cwsmer i'r dyfodol. Pwysleisiwyd bod boddhad cwsmeriaid a staff wedi cynyddu yn gyffredinol.

Tynnwyd sylw bod niferoedd y cychod sydd wedi angori ger yr Hafan wedi cynyddu 60% ers 2020. Eglurwyd bod incwm yr harbwr wedi cynyddu yn unol â chwyddiant. Nodwyd nad yw gwariant cyffredinol yr harbwr wedi cynyddu ar yr un raddfa oherwydd bod yr harbwr wedi defnyddio oddeutu £250,000 o gronfeydd ar gyfer gwelliannau a diweddariadau i'r harbwr. Ymfalchïwyd bod yr harbwr wedi cyrraedd cyfanswm yr angorfeydd posibl a chadarnhawyd bod rhestr aros o bobl sy'n dymuno angori eu cychod yno. Adroddwyd bod swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda phrif swyddogion y Cyngor ar sut gallai'r harbwr cael ei ddatblygu i'r dyfodol a sut byddai hynny yn dylanwadau ar yr economi leol, gan gadw mewn ystyriaeth bod y Cyngor yn arwain drwy argyfwng ariannol ar hyn o bryd.

Adroddwyd bod ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn 2024/25 wedi cael eu cymeradwyo ers mis Rhagfyr 2023. Ymhelaethwyd bod contractau bellach wedi mynd allan i gwsmeriaid gan

ddefnyddio system electronig newydd. Sicrhawyd bod tri chwarter y cwsmeriaid wedi diweddaru eu cytundebau hyd yma. Gwelwyd nad oes llawer o gwsmeriaid yn diddymu eu contractau hyd yma o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ble be u 10% o gwsmeriaid ganslo eu cytundeb. Nodwyd bod y cynnydd i ffioedd ar gyfer y flwyddyn yn unol â chwyddiant

Darparwyd diweddariad ar faterion staffio a chydymdeimlwyd gydag Arweinydd Tîm yr harbwr sydd wedi derbyn triniaeth ar gyfer cyflwr meddygol yn ddiweddar. Diweddarwyd ei fod wedi dychwelyd i'r gwaith a'i fod yn parhau i wella a derbyn triniaeth. Rhannwyd dymuniadau da iddo am wellhad buan. Cadarnhawyd hefyd bod Is-reolwr/Harbwrfeistr yr harbwr wedi cychwyn cyfnod ymddeoliad hyblyg. Nodwyd y golyga hyn ei fod yn parhau i weithio am dri diwrnod yr wythnos er mwyn parhau i gynorthwyo a chefnogi'r tîm. Atgoffwyd yr Aelodau ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r harbwr ers amser maith ac yn meddu ar lawer o wybodaeth am yr harbwr. Diolchwyd iddo am barhau i weithio yn ystod cyfnod gwaeledd yr Arweinydd Tîm.

Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r ymgynghoriad diweddar ar y Cynllun Strategol. Diweddarwyd bod yr ymgynghorwyr yn hapus gyda'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd ym Mhlas Heli, y Cyngor Tref, ac yn electronig. Eglurwyd bod yr ymgynghoriad bellach wedi dod i ben ac mae drafft gorffenedig o'r cynllun wedi cael ei ddatblygu er mwyn ystyried y camau nesaf. Pwysleisiwyd bod pedair prif amcan wedi cael eu nodi yn y cynllun gan gynnwys:

1. Carthu
2. Isadeiledd Morwrol (Pontoons) - Eglurwyd bod arolwg o'r Pontoons eisoes wedi cael ei gwblhau er mwyn datrys problemau'r Pontoons i ddatblygu'r ardal ymhellach.
3. Buddsoddiad Hir-dymor – Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych ar buddsoddiadau addas ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bod swyddogion wedi gosod Bid mewn i'r Gronfa Rheoli Asedau. Nodwyd hefyd bod swyddogion wedi gwneud cais i'r Cyngor ail-ystyried ble mae elw'r harbwr yn cael ei leoli, gan ymdrechu i sicrhau bod cyfran o elw'r harbwr yn cael ei glustnodi ar gyfer gwelliannau.
4. Penderfyniadau cydlynol - Nodwyd bod yr amcan hwn yn ystyried sut mae'r harbwr yn ymgorffi i'r Cynllun Canol Tref a Phartneriaeth Natur Gwynedd a nifer o gynlluniau gwahanol all yr harbwr gyfrannu ac elwa ohonynt.

Sicrhawyd bydd y cynllun yn cael ei ddefnyddio'n barhaus er mwyn gwireddu'r amcanion hyn ac i ddatblygu'r harbwr i'r dyfodol.

Cydnabuwyd bod gorsaf Bad Achub Pwllheli wedi profi cyfnod heriol yn y misoedd diwethaf gan orfodi'r orsaf i gau am gyfnod byr. Cadarnhawyd bod yr orsaf wedi ail-agor ers 15 Chwefror a bod hyfforddiant wedi ail-gychwyn yno. Gobeithiwyd bydd yr orsaf yn gallu bod yn weithredol ac ateb galwadau erbyn y Pasg, yn ddibynnol ar ddatblygiad yr hyfforddiant a niferoedd yr unigolion sydd yn rhan o'r criw. Nodwyd mai prif nod yr orsaf ar hyn o bryd yw derbyn y prif bad achub yn ei ôl. Cadarnhawyd bod materion recriwtio dros yr wythnosau diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn a diolchwyd i'r gymuned am eu hymateb ffafriol. Ymhelaethwyd bod 13 o unigolion wedi rhoi eu henwau ymlaen i wirfoddoli a diolchwyd iddynt am eu hamser a'u cefnogaeth.

Nodwyd y disgwylir i bencampwriaethau hwylio Plas Heli fod yn brysur iawn dros yr haf gan fod nifer fawr o enwau wedi eu derbyn i gymryd rhan. Nodwyd hefyd bod nifer o welliannau wedi cael ei wneud i'r safle gan gynnwys tar ar rhan o'r ffordd i lawr i'r traeth a rhannwyd gobaith o osod mwy o gawodydd er budd defnyddwyr. Tynnwyd sylw bod nifer o ddiffygion yn yr adeilad sydd heb dderbyn sylw gan swyddogion. Ymhelaethwyd bod maint fesurwr wedi bod ar y safle a gobeithir bydd yr adroddiad hwn yn cyrraedd yn fuan er mwyn datrys diffygion.

Diolchwyd i bawb am eu gwaith dros y gaeaf a'u hymroddiad i'r harbwr a'r hafan.

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 08 Hydref, 2024, yn ddarostyngedig i Gyngor Llawn gymeradwyo'r calendr pwyllgorau yn ei gyfarfod ar 07 Mawrth, 2024.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.20 pm.

**CADEIRYDD.**